**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (108)**
**Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

**NDM2232 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, a elwir Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2005-1 yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad, i gyflawni'r swyddogaethau mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn o dan adrannau 77(1) a 77(4) a 78 a 79(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ynghyd â swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adran 208 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn achos yr apêl yn erbyn yr hysbysiad disodli coed a nodwyd yn yr Atodlen, a bod swyddogaethau'r Cynulliad o ran y pethau hynny yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones AC (Cadeirydd)
Glyn Davies AC
Irene James AC
Helen Mary Jones AC

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 31 Ionawr 2005, pa un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r cyfryw faterion, yn cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru.

<u>Atodlen</u>

CAIS WEDI'I ALW I MEWN O DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN HANSON QUARRY PRODUCTS EUROPE LTD AR GYFER ESTYNIAD ARFAETHEDIG CHWAREL BRESENNOL YN CHWAREL ST GEORGE, NANT DDU, LLAN SAIN SIÔR, ABERGELE.

APÊL GYNLLUNIO O DAN ADRAN 78 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MR J

PHELPS AR GYFER Y BWRIAD I ADEILADAU ANNEDD BRESWYL AR DIR ODDI AR BULWARK ROAD, CAS-GWENT AC APÊL O DAN ADRAN 208 O'R DDEDDF HONNO GAN MR G D PHELPS YN ERBYN HYSBYSIAD DISODLI COED (TRN) AR DIR ODDI AR BULWARK ROAD, CAS-GWENT

**......................................**

## Eitem 2

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Y cwestiynau

**......................................**

## Eitem 3

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Y cwestiynau

**......................................**

## Eitem 4

**Dadl ar y Setliad Llywodraeth Leol**

**NDM2233 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) am y flwyddyn ariannol 2005-06, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a gylchredwyd i'r Aelodau ar 17 Rhagfyr 2004 gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Local Government Finance Report (No 1) for the financial year 2005-06 - LD3378 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

**......................................**

## Eitem 5

**Dadl ar Gynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig y Cynulliad Cenedlaethol**

**NDM2234 Karen Sinclair (De Clwyd), John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mabwysiadu Ail Gynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd dros e-bost hefyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Ionawr 2005; a

2. Yn cydnabod gyda diolch y cymorth a'r gefnogaeth a roddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a chan unigolion a sefydliadau wrth gynhyrchu'r Cynllun.

Ail Gynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1) + (2)**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiadau cyson gan Weinidogion a gweision sifil allweddol fel rhan o'r gwaith craffu cynhwysfawr a pharhaus ar weithredu'r Ail Gynllun Cydraddoldeb Hiliol.

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn sicrhau y rhoddir pwyslais ar ddatblygu, law yn llaw â hyfforddiant ar weithredu cadarnhaol a hyfforddiant o fath arall i Aelodau'r Cynulliad a'r staff.

**.......................................**

**Eitem 6**

**Dadl fer -NDM2231 Mike German (Dwyrain De Cymru)-** Y Tswnami - Rôl Cymru

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 18 Ionawr 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**